

YMRWYMIADAU CYNLLUNIO CANLLAWIAU  
CYNLLUNIO ATODOL

ADRODDIAD YMGYNGHORIAD AC ARGYMHELLION  
Y SWYDDOG



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

MEDI 2019

# Cynnwys

Cynnwys .....	2
1.0 CEFNDIR .....	3
Diben y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA).....	3
Y Cyd-destun Polisi.....	3
Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol .....	3
Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol .....	3
2.0 CCA YMRWYMIADAU CYNLLUNIO .....	4
Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus.....	4
3.0 MATERION CYFREITHIOL.....	5
ATODIAD A .....	6

## 1.0 CEFNDIR

### Diben y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

#### 1.1 Diben y CCA yw:

- cynorthwyo'r ymgeiswyr a'u hasiantau i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion ynghylch sut i ddefnyddio polisiau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, a
- chynorthwyo Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apelïadau.

#### 1.2 Y nod gyffredinol yw gwella ansawdd datblygiadau newydd a hwyluso ffordd gyson a thryloyw o wneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â pholisiau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

### Y Cyd-destun Polisi

#### Y Cynllun Datblygu Lleol

#### 1.3 Dan ddeddfwriaeth gynllunio, mae'r polisiau cynllunio ar gyfer pob ardal wedi'u cynnwys yn y 'cynllun datblygu'. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn ar 31 Gorffennaf 2017. Mae'n ymwneud ag ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Môn.

#### 1.4 Mae'r Cynllun yn darparu polisiau amrywiol ynghyd â dyraniadau ar gyfer y prif ddefnyddiau tir, megis tai, cyflogaeth a manwerthu; bydd yn cynorthwyo i siapia dyfodol ardal y Cynllun yn ffisegol ac yn amgylcheddol, a bydd hefyd yn dylanwadu arno yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Felly, mae'r Cynllun yn:

- galluogi i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau cynllunio drwy ddarparu fframwaith polisi sy'n gyson â pholisi cenedlaethol; ac
- arwain datblygiadau i ardaloedd addas yn ystod y cyfnod hyd at 2026.

### Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol

#### 1.5 Er bod y Cynllun yn cynnwys polisiau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all rhoi'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cynghorau'n rhoi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun gyda chanllawiau mwy manwl ar amrediad o bynciau a materion i gynorthwyo i ddadansoddi neu weithredu polisiau a chynigion y Cynllun.

### Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol

#### 1.6 Ystyrir Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn ystyriaethau cynllunio perthnasol yn ystod y broses o asesu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi pwys sylweddol ar ganllawiau cynllunio atodol sy'n deillio o gynllun datblygu ac sy'n gyson ag ef. Nid yw'r CCA yn cyflwyno unrhyw bolisiau cynllunio newydd nac yn addasu polisiau sy'n bodoli eisoes.

#### 1.7 Felly, cyn gynted ag y bydd CCA wedi'u mabwysiadu, dylid rhoi pwys sylweddol iddynt fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.

## 2.0 CCA YMRWYMIADAU CYNLLUNIO

2.1 Yn aml, bydd datblygiadau newydd yn dibynnu ar isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau newydd, neu byddant yn ddibynol ar rai presennol, er mwyn gwneud cynigion yn dderbyniol o safbwynt cynllunio defnydd tir. Mae'r angen am isadeiledd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei greu yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio. Gall y datblygiad newydd fod yn ormod i gapasiti'r isadeiledd presennol, gan greu angen am isadeiledd neu gyfleusterau newydd. Gall defnyddio ymrwymadau cynllunio fod yn briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr wneud cyfraniadau at ddarparu'r isadeiledd i gefnogi'r datblygiad arfaethedig. Nod y canllaw hwn yw rhoi mwy o fanylion a gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo'r ddau awdurdod lleol i weithredu Polisiau PS2 ('Isadeiledd a Chyfraniadau Datblygwr') a Pholisi ISA1 ('Darparu isadeiledd') ac egluro'r mathau o ymrwymadau y gellid disgwyl i ddatblygwyr gytuno iddynt, eu cynnwys a'r trothwyon sy'n arwain at wahanol ymrwymadau.

### Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus

- 2.2 Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r CCA hwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 25 Ionawr, 2019. Paratowyd y drafft hwn mewn ymgynghoriad â swyddogion perthnasol o'r ddau Awdurdod. Cyn hyn, cafodd y CCA ei adolygu gan y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 16 Tachwedd, 2018.
- 2.3 Roedd y CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 21ain o Chwefror a 4ydd o Ebrill, 2019.
- 2.4 Rhoddwyd manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus ar wefannau'r ddau Gyngor ac anfonwyd e-byst/llythyrau at yr holl Gynghorwyr, Cynghorau Cymuned, asiantau cynllunio, ymgynghorwyr statudol, cyrff amgylcheddol, awdurdodau cyfagos a'r sawl a oedd wedi datgan diddordeb yn y CCA. Roedd copïau caled o'r CCA hefyd ar gael i'w darllen ym mhob llyfrgell gyhoeddus, prif swyddfa Cyngor Ynys Môn yn Llangefni ac yn Siop Gwynedd (Caernarfon, Dolgellau a Phyllheli).
- 2.5 Roedd nifer o ffyrdd gwahanol ar gael i bobl ymateb i'r ymgynghoriad, yn cynnwys:
- Ffurflen ymateb ar-lein mewn *word* a *pdf* - ar gael ar y ddwy wefan a chopïau papur ar gael ym mhob llyfrgell a Siop Gwynedd. Roedd copïau papur o'r ffurflen ymateb hefyd ar gael ar gais gan yr UPC ar y Cyd.
  - E-byst; a
  - Llythyr
- 2.6 Derbyniwyd cyfanswm o 11 o sylwadau, pob un gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i bob sylw a dderbyniwyd.
- 2.7 Mae'r adran a ganlyn (Atodiad A) yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd, yn cynnwys ymateb y Cynghorau iddynt a phan fo'n briodol, yn argymhell unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r CCA yn sgil y sylwad. Nodir unrhyw newid arfaethedig i eiriad y CCA mewn **ffont drom wedi'i thanlinellu**.

### Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

2.8 Cyflwynwyd yr Adroddiad Ymgynghori i'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar y 17 Gorffennaf 2019 er mwyn ystyried a chynnig sylwadau mewn perthynas â ymateb Swyddogion a'r sylwadau a dderbyniwyd.

### 3.0 MATERION CYFREITHIOL

3.1 Derbyniodd y Cynghorau gopi o farn gyfreithiol gan fargyfreithiwr mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi ei gomisiynu. Mae'r farn yn ymdrin gyda nifer o agweddau ac yn herio cyfreithlondeb polisi cenedlaethol, y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r Canllaw yma. Rydym yn ymwybodol fod holl aelodau'r Cyd-bwyllgor wedi derbyn copi o'r ohebiaeth yma.

3.2 Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi ymateb i'r Gymdeithas ar ran Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd gyda llythyr manwl yn gwrthwynebu'r her ac yn datgan yn eglur y bydd unrhyw achos cyfreithiol yn cael ei amddiffyn gan y Cyngor. Beth bynnag, ni chaniateir herio cyfreithlondeb Cynllun Datblygu ar ôl chwe wythnos **wedi iddo gael ei fabwysiadu.**

3.3 Rhaid dwyn mewn cof fod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn ddogfen bolisi allweddol i'r Cynghorau sydd yn rhan sylfaenol o ddyfarniad ceisiadau cynllunio yn ddyddiol. Yn wyneb datganiadau cyhoeddus fod y polisïau yn "anghyfreithiol" mae'r ddau Gyngor wedi rhoi ateb llawn a manwl ar ein safbwynt sydd wedi ei gadarnhau gan fargyfreithiwr arbenigol ar ran y Cynghorau.

3.4 Ar gyfer y Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio (Drafft) nodwyd:

- Mae hwn yn Ganllaw sydd yn benodol atodol i Bolisi PS 2 a Pholisi ISA 1, sydd yn ymwneud a materion isadeiledd a chyfraniadau gan ddatblygwyr i liniaru unrhyw effaith.
- Mae'r Canllaw yma yn ymylol iawn mewn perthynas ag asesiadau a datganiadau iaith.
- Oherwydd hyn yr unig sylw wnaeth y Cyngor oedd fod y Canllaw Ymrwymadau Cynllunio yn rhoi arweiniad ynglŷn â beth fydd y Cynghorau yn ei ddisgwyl o ran cyfraniadau i liniaru effaith unrhyw ddatblygiad. Bydd unrhyw ymrwymiad cynllunio yn seiliedig ar natur y datblygiad ac yn gorfod cydymffurfio a gofynion statudol penodol, a bydd rhaid cyfiawnhau unrhyw fesurau lliniaru ar sail tystiolaeth.

**ATODIAD A**

Rhif Adnabod y Sylw	Math o Sylw	Sefydliad	Rhan	Crynodeb o'r Sylwadau	Sylwadau'r Swyddogion a'r Argymhelliad
1	Gwrthwynebiad	CNC	3.5	<p>Paragraff 3.5 - A yw hyn yn berthnasol i isadeiledd gwyrdd a/neu waith cadwraeth/bioamrywiaeth? Os ydy, rydym yn bryderus ynglŷn â goblygiadau posib camau gweithredu cadwraeth o ystyried y cais am ddim mwy na phum ymrwymiad cynllunio unigol (a ganiatawyd ers mis Ebrill 2010).</p>	<p><b>Sylw wedi'i nodi</b></p> <p>O fis Ebrill 2015, cyfyngodd Llywodraeth y DU nifer y cyfraniadau Adran 106 a ellir eu "cronni" i dalu am isadeiledd newydd i bump. Yn flaenorol, roedd modd casglu cyfraniadau o'r fath ynghyd o sawl datblygiad gwahanol i helpu i dalu am isadeiledd newydd. Yn wyneb hyn, mae'n bwysig bod unrhyw gyfraniad a geir ar gyfer ardal benodol a nodwyd er mwyn lleihau effaith bosib dros gyfraniadau 'wedi'u cronni'.</p> <p><b>Argymhelliad</b></p> <p>Dim newid</p>
2	Sylw	CNC	3.6	<p>Polisi ISA 1 - Rydym yn croesawu'r bwriad i gynnwys cadwraeth natur. O ran darparu adnoddau ariannol, rydym yn cynghori ei fod yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Talu swm yn gyfnewid; a neu</li> <li>• Sefydlu prosesau ffi gwasanaeth rhent tir sy'n gysylltiedig â mynegai.</li> </ul>	<p><b>Sylw wedi'i nodi</b></p> <p>Mae Polisi ISA1 eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o broses ymgynghori cyhoeddus y CDLI ar y Cyd ac ni ellir ei newid drwy'r CCA.</p> <p><b>Argymhelliad</b></p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o Sylw	Sefydliad	Rhan	Crynodeb o'r Sylwadau	Sylwadau'r Swyddogion a'r Argymhellion
					Dim newid.
3	Sylw	CNC	4.4	<p>1. Paragraff 4.4 - Mathau o Daliad - Awgrymwn fecanwaith ariannu ychwanegol 'Sefydlu prosesau ffi gwasanaeth rhent tir sy'n gysylltiedig â mynegai'.</p> <p>2. Amserlenni - Rydym yn cyngori cynnwys amserlenni ar gyfer taliadau.</p> <p>3. Beth os na dderbynnir taliadau? A ellir cynnwys 'bondiau' hefyd?</p>	<p><b>Sylw wedi'i nodi</b></p> <p>1) Cytuno y dylid cynnwys mecanwaith mynegrifol, fyddai'n sicrhau arian am byth, gael ei gynnwys.</p> <p>2) Cytuno y dylid cyfeirio at yr amserlenni ar gyfer taliadau yn y Canllaw.</p> <p>3) Gweler yr ymateb i sylw 4 isod.</p> <p><b>Argymhellion</b></p> <p>1) Cynnwys y testun isod yn adran 4.4:</p> <p><b><u>vii) Taliadau sy'n gysylltiedig â mynegai - Mewn rhai achosion, ni fydd taliad unwaith ac am byth yn ddigonol a bydd angen arian dros gyfnod llawer hirach. Enghraifft o hyn fyddai gwarchod a gwella asedau bioamrywiaeth fyddai efallai angen rheolaeth, talu am warden a chael eu monitro'n rheolaidd dros gyfnod tymor hir. Felly, mewn achosion priodol, dylai cyfraniadau ariannol fod yn fynegrifol fel bod y symiau o arian y cytunwyd arnynt yn cadw eu gwerth cymharol ac yn galluogi amrywiad</u></b></p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o Sylw	Sefydliad	Rhan	Crynodeb o'r Sylwadau	Sylwadau'r Swyddogion a'r Argymhelliad
					<p><u>mewn prisiau. Dylai'r dull o fynegio gael ei nodi yn yr ymrwymiad cynllunio, ac fel arfer bydd hynny'n golygu'r Mynegai Pris Manwerthu (RPI) a gyhoeddir gan yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI) neu Fynegai Gwasanaeth Gwybodaeth Cost Adeiladu (BCIS) a gyhoeddir gan Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig (RICS), yn dibynnu ar natur y cyfraniad.</u></p> <p>2) Cynnwys y testun isod ar ôl paragraff 4.4:</p> <p>vi) ....yn cyfyngu nifer ymrwymadau cynllunio y gellir eu cronni (dim mwy na 5).</p> <p><u>Bydd dyddiadau sbardun ar gyfer talu cyfraniadau ariannol yn cael eu cynnwys yn y cytundeb cynllunio, yn yr un modd ag unrhyw gyfnodau amser y dylid gwario'r cyfraniad.</u></p> <p>3) Dim newid</p>
4	Sylw	CNC	5.21	Paragraff 5.21 - Rydym yn croesawu darpariaethau yn ymwneud â gorfodaeth. Fodd bynnag, pa flaenoriaeth a roddir i orfodaeth? Awgrymwn y gallai'r defnydd o 'fondiau' gael ei ddefnyddio i hwyluso gorfodaeth.	<p><b>Sylw wedi'i nodi</b></p> <p>Cytuno y gall taliadau'r bondiau hwyluso'r dasg o ddarparu ymrwymadau cynllunio mewn amgylchiadau priodol.</p>



Rhif Adnabod y Sylw	Math o Sylw	Sefydliad	Rhan	Crynodeb o'r Sylwadau	Sylwadau'r Swyddogion a'r Argymhelliad
					<p><b>Argymhelliad</b></p> <p>Cynnwys testun newydd ar ddechrau paragraff 5.22:</p> <p><b><u>5.22 Bydd y Cyngor angen i'r datblygwr dalu bond mewn rhai achosion i sicrhau bod ymrwymadau yn cael eu darparu pe bai perchennog tir yn methu talu neu'n methu darparu isadeiledd.</u></b></p>
5	Sylw	CNC	Adran 12 - Amgylchedd	<p>Adran 12 - Amgylchedd - Cytundebau Adran 106 i gynnwys darpariaethau yn ymwneud â'r hirdymor, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Integreiddio amserlenni talu a deiliadaeth; <ul style="list-style-type: none"> <li>• • Gweithredu rheolaeth cadwraeth wedi'i dargedu yn yr hirdymor drwy gynlluniau rheoli a/neu gytundebau rheoli atodol, e.e. Cytundebau Adran 39 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd);</li> <li>• • Cadw golwg, monitro a rheoli data yn yr hirdymor;</li> <li>• • Darparu adnoddau hirdymor (swm yn gyfnewid neu ffioedd gwasanaeth rhent tir)</li> <li>• • Newidiadau mewn daliadaeth</li> <li>• • Biddiogelwch</li> </ul> </li> </ul>	<p><b>Sylw wedi'i nodi</b></p> <p>Cytuno y byddai'n ddefnyddiol cynnwys manylion o ran y darpariaethau posib a gynhwysir yng nghytundebau A106 er mwyn rhoi mwy o eglurder:</p> <p><b>Argymhelliad</b></p> <p>Cynnwys paragraff newydd ar ôl 12.5:</p> <p><b><u>12.6 Gallai Cytundebau Adran 106 gynnwys y darpariaethau a ganlyn yn ymwneud â gwarchod a gwella'r amgylchedd yn yr hirdymor:</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b><u>Integreiddio amserlenni talu a deiliadaeth;</u></b></li> <li>• <b><u>Gweithredu rheolaeth cadwraeth wedi'i dargedu yn yr hirdymor drwy gynlluniau rheoli a/neu gytundebau rheoli atodol,</u></b></li> </ul>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o Sylw	Sefydliad	Rhan	Crynodeb o'r Sylwadau	Sylwadau'r Swyddogion a'r Argymhelliad
				<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bond y gellir cael mynediad iddo mewn achos o ddiffyg cydymffurfio</li> </ul> <p>Yng nghyswllt yr uchod, bernir y dylid ychwanegu adran ychwanegol yn Adran 12.</p>	<p><u>e.e. Cytundebau Adran 39 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd);</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <u>Cadw golwg, monitro a rheoli data yn yr hirdymor;</u></li> <li>• <u>Darparu adnoddau hirdymor (swm cymudol neu ffioedd gwasanaeth rhent tir);</u></li> <li>• <u>Newidiadau mewn daliadaeth;</u></li> <li>• <u>Bioddiogelwch;</u></li> <li>• <u>Bond y gellir cael mynediad iddo mewn achos o ddiffyg cydymffurfio.</u></li> </ul>
6	Sylw	CNC	Adran 19 - Perygl o Lifogydd	<p>Ceir ardaloedd o Wynedd ac Ynys Môn lle mae diffyg seilwaith carthffosiaeth a lle gallai datblygu gael ei rwystro oherwydd diffyg prif ddraeniad, neu le mae eisoes yn achosi problemau amgylcheddol, yn enwedig:</p> <p><u>Ynys Môn</u> – Brynteg, Carreglefn, Traeth Coch a Llanbedr-goch.</p> <p><u>Gwynedd</u> - Rhoshirwaun, Rhydlios, Llangwnadl, Penygroeslon, Uwchmynydd, Garn Fadryn, Rhiw a Thudweiliog.</p> <p>Er bod yr "aneddiadau" uchod yn gymharol fychan, efallai y byddwch yn dymuno ystyried p'un a fydd y defnydd o ymrwymadau cynllunio yn briodol yn yr ardaloedd hyn o ran cyfrannu at</p>	<p><b>Sylw wedi'i nodi</b></p> <p>Ymgynghorir â'r cwmni dŵr perthnasol (h.y. Dŵr Cymru) ar geisiadau unigol fel rhan o'r broses gynllunio. Byddai cynnwys yr aneddiadau a nodwyd yn rhoi manylion diangen yn y Canllaw.</p> <p><b>Argymhelliad</b></p> <p>Dim newid</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o Sylw	Sefydliad	Rhan	Crynodeb o'r Sylwadau	Sylwadau'r Swyddogion a'r Argymhelliad
				wasanaethau carthffosiaeth addas ar gyfer unrhyw ddatblygiadau newydd.	
7	Sylw	CNC	19.6	<p>Yn ychwanegol i'r mesurau a amlinellir yn eich CCA Ymrwymadau Cynllunio, efallai y bydd eich Awdurdod yn ystyried bod cynnwys y mesurau lliniaru isod yn briodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dyluniad Gwydn Lefelau Eiddo - lleihau faint o ddŵr llifogydd all fynd i eiddo a lleihau'r difrod a achosir os fydd dŵr yn mynd i mewn.</li> <li>Dyluniad Gwydn Lefelau Safle - lleihau faint o ddŵr llifogydd all fynd i safle, a rheoli unrhyw ddŵr sy'n cyrraedd safle yn effeithiol fel nad yw'n cael effaith andwyol ar y datblygiad.</li> </ul>	<p><b>Sylw wedi'i nodi</b></p> <p>Cytuno y byddai cynnwys y mesurau lliniaru a awgrymir yn ychwanegu eglurder i'r Canllaw.</p> <p><b>Argymhelliad</b></p> <p>Cynnwys paragraff newydd ar ôl paragraff 19:6:</p> <p><b><u>19.7 Dylai gwella gwytnwch cymunedau fod yn flaenoriaeth i awdurdodau cynllunio, a dylai ystyriaeth ddylunio fod yn ffactor allweddol wrth ystyried a yw datblygiad yn dderbyniol mewn ardaloedd perygl llifogydd. Os dangosir bod y profion a nodir yn NCT15 wedi cael eu diwallu, yna dylai datblygiad newydd allu gwrthsefyll llifogydd posib ar lefelau'r eiddo a'r safle:</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b><u>Dyluniad Gwydn Lefelau Eiddo - lleihau faint o ddŵr llifogydd all fynd i eiddo a lleihau'r difrod a achosir os fydd dŵr yn mynd i mewn.</u></b></li> <li><b><u>Dyluniad Gwydn Lefelau Safle - lleihau faint o ddŵr llifogydd all fynd i safle, a rheoli unrhyw ddŵr sy'n cyrraedd safle</u></b></li> </ul>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o Sylw	Sefydliad	Rhan	Crynodeb o'r Sylwadau	Sylwadau'r Swyddogion a'r Argymhelliad
					<u>yn effeithiol fel nad yw'n cael effaith andwyol ar y datblygiad.</u>
8	Sylw	CNC	19.6	Fel arfer, rydym yn croesawu cynnwys paragraff 19.6 sy'n cadarnhau y dylid dangos bod pob risg llifogydd o bob ffynhonnell wedi cael eu hystyried. Argymhellwn gynnwys cyfeiriad at newid hinsawdd yn yr adran hon er mwyn ail-gadarnhau'r safiad y dylid ystyried perygl llifogydd drwy gydol oes y datblygiad h.y. ystyried newid hinsawdd.	<p><b>Sylw wedi'i nodi</b></p> <p>Cytuno y dylid cyfeirio at newid hinsawdd yn yr adran hon fel bod perygl llifogydd yn cael ei ystyried drwy gydol oes y datblygiad.</p> <p><b>Argymhelliad</b></p> <p>Cynnwys paragraff newydd ar ôl paragraff newydd 19.7 (gweler sylw 7 uchod):</p> <p><b><u>19.8 Bydd cyfraniadau datblygwr yn cael eu defnyddio i liniaru ac addasu effeithiau newid hinsawdd, ac i leihau allyriadau carbon deuocsid a gyfyd o'r datblygiad, fel bod perygl llifogydd yn cael ei ystyried drwy gydol oes y datblygiad. Gallai'r rhain gynnwys:</u></b></p> <p><b><u>Lliniaru:</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b><u>Defnyddio llai o ynni, yn benodol drwy fabwysiadau mesurau dylunio ac adeiladu cynaliadwy;</u></b></li> <li>• <b><u>Cyflenwi ynni'n effeithlon, yn benodol drwy flaenoriaethu cynhyrchu ynni'n ddatganoledig; a</u></b></li> <li>• <b><u>Defnyddio ynni adnewyddadwy.</u></b></li> </ul>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o Sylw	Sefydliad	Rhan	Crynodeb o'r Sylwadau	Sylwadau'r Swyddogion a'r Argymhelliad
					<p><b>Addasu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <u>cyfrannu at leihau perygl llifogydd gan gynnwys cymhwyso egwyddorion draenio trefol cynaliadwy;</u></li> <li>• <u>lleihau'r defnydd o ddŵr;</u></li> <li>• <u>cyfraniadau cronfeydd carbon; a gwarchod a gwella isadeiledd gwyrdd.</u></li> </ul>
9	Sylw	CNC	Adran 19	Os gellir cyfiawnhau datblygiad newydd (gweler adran 6 NCT15), yna mae posib ymgorffori mesurau lliniaru perygl llifogydd i ddatblygiadau newydd er mwyn lleihau perygl llifogydd.	<p><b>Sylw wedi'i nodi</b></p> <p>Cytuno y dylai'r defnydd o fesurau lliniaru perygl llifogydd megis Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), fel y'u hamlinellwyd yn adran 6 NCT15, gael eu hymgorffori mewn datblygiadau newydd. Mae'r newidiadau a wnaed mewn ymateb i sylw 8 uchod yn mynd i'r afael â hyn.</p> <p><b>Argymhelliad</b></p> <p>Dim newid.</p>
10	Sylw	CNC	19.4	Efallai bod angen diffinio'r term "cynlluniau atal llifogydd" yn y CCA yn well.	<p><b>Sylw wedi'i nodi</b></p> <p>Cytuno y dylai cynlluniau 'atal llifogydd' gael eu diffinio'n glir er mwyn rhoi gwell eglurder.</p> <p><b>Argymhelliad</b></p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o Sylw	Sefydliad	Rhan	Crynodeb o'r Sylwadau	Sylwadau'r Swyddogion a'r Argymhelliad
					<p>Diwygio pwynt bwled cyntaf paragraff 19.4 i ddarllen:</p> <p>19.4</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynllun atal llifogydd - <b><u>cynllun i reoli perygl llifogydd yn ardal yr awdurdod. Mae hyn yn cynnwys mesurau amddiffyn.</u></b></li> </ul>
11	Sylw	CNC	Adran 19 - Perygl o Llifogydd	<p>O ran perygl llifogydd oherwydd dŵr wyneb, a rheoli dŵr wyneb o safleoedd datblygu unigol, argymhellwn eich bod yn cysylltu â'ch adrannau draenio/peryl llifogydd sy'n gweithredu fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol.</p>	<p><b>Sylw wedi'i nodi</b></p> <p>Ymgynghorir â'r adrannau perthnasol yn y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol os fydd posib i ddatblygiad gael ei effeithio gan berygl llifogydd.</p> <p><b>Argymhelliad</b></p> <p>Dim newid</p>